


# Llwybr Arfordir Ceredigion

## Y Sialens



Cerddwch 60 milltir  
Llwybr Arfordir Ceredigion  
ar ei hyd wrth eich pwysau  
i derbyn tystysgrif



darganfod discover  
**Ceredigion**

Cardigan Bay & the Cambrian Mountains

## Uchafbwyntiau Llwybr Arfordir Ceredigion

Os ewch chi am dro ar hyd arfordir Bae Ceredigion fe gewch chi brofiad arbennig iawn o Llwybr Arfordir Cymru. Dyma rai o uchafbwyntiau'r daith.



Mae rhannau o Llwybr Arfordir Ceredigion yn Aberystwyth, Aberaeron ac Aberporth yn addas i bawb.

Mae traethau rhagorol ar hyd arfordir Ceredigion, ac yn eu plith mae traethau i'r teulu a childraethau bach tawel.



Mae arfordir Ceredigion yn gynefin i lu o blanhigion ac anifeiliaid y môr, gan gynnwys y boblogaeth fwyaf o ddolffiniaid trwynbwl yn Ewrop gyfan.

Dysgwch am dreftadaeth Ceredigion ar hyd yr arfordir. Mae'n werth ymweld â'r trefi a'r pentrefi ar hyd y daith.



Mae Mwn't yn safle crefyddol hynafol. Mae yno eglwys syml a hyfryd sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar ddeg (Eglwys y Grog) - mae'n werth ymweld â hi.

## Ffeithiau Llwybr Arfordir Ceredigion

- Mae'r rhan fwyaf o arfordir Ceredigion wedi ei ddynodi'n Ardal Gadwraeth Arbennig, ac mae'r rhan ddeheuol yn Arfordir Treftadaeth hefyd.
- Mae mwy na 30 o draethau a childraethau ar hyd y Llwybr, ac mae nifer wedi ennill gwobrau Glan Môr, y Faner Las ac Arfordir Glas.
- Mae rhaedrau'n cwmpo'n syth i'r traeth yn Nhresaith a Chwm Buwch rhwng Y Cei Newydd ac Aberaeron.
- Mae'r teulu mwyaf yn Ewrop o ddolffiniaid trwynbwl yn byw am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ym Mae Ceredigion, a gallwch eu gweld nhw o nifer o lefydd ar hyd y Llwybr, yn ogystal â llamhidyddion yr harbwr a morloi llwyd.
- Mi welwch y frân goesgoch, y cudyll glas a'r wylog yn yr haf ar glogwyni'r arfordir a murmur anhygoel y drudwy wrth iddynt heidio uwchben Aberystwyth yn yr hydref.



"Bûm yn cerdded ar lwybr y clogwyn unwaith eto,  
a'r dref [Y Cei Newydd] tu ôl ac islaw imi bellach yn  
deffro'n ara' bach; oedais a throais ac edrych..."

Dylan Thomas - 'Quite early one morning'

## Ap Llwybr Arfordir Cymru

Mae Ap Arfordir Cymru'n cwmpasu Llwybr Arfordir Cymru i gyd; mae'n eich tywys ar hyd y daith ac at dros 150 o draethau a'r cyfleusterau agosaf.

**Beth am lawrlwytho Ap Arfordir Cymru'n rhad ac am ddim nawr!**



# Llwybr Arfordir Ceredigion Y Sialens (60 milltir/96 cilometr)

Mae Llwybr Arfordir Ceredigion yn 60 milltir o hyd rhwng aberoedd afonydd Teifi a Dyfi. Mae'n dechrau i'r de o Aberteifi ac oddi yno mae'n mynd i gyfeiriad y gogledd ac mae'n diweddau yn Ynyslas. Os defnyddiwr chi drefi a phentrefi'r arfordir fel manau aros gallwch gerdded Llwybr Ceredigion mewn rhannau hwylus. Mae digonedd o siopau, caffis a thafarnau i ddiwallu'ch anghenion ar hyd y daith.

Beth am gerdded ar hyd Llwybr Arfordir Ceredigion o un pen i'r llall, wrth eich pwysau! Atebwch y saith cwestiwn gyferbyn i dderbyn dystysgrif sialens y Llwybr. Rhannwch eich profiad gyda ni #FindYourEpic

Rhan	O	I	Pellter	Gradd
	Aberteifi	Aberporth	12 milltir	Cymedrol/hawdd
	Aberporth	Llangrannog	5.4 milltir	Cymedrol/caled
	Llangrannog	Y Cei Newydd	9.4 milltir	Cymedrol
	Y Cei Newydd	Aberaeron	6.6 milltir	Cymedrol/hawdd
	Aberaeron	Llanrhystud	7.4 milltir	Cymedrol/hawdd
	Llanrhystud	Aberystwyth	10.6 milltir	Cymedrol/caled
	Aberystwyth	Ynyslas	9.8 milltir	Hawdd/caled

## Hygyrchedd

Nid oes gatiâu na chamfeydd ar rai rhannau o Llwybr Arfordir Ceredigion ac mae rhai rhannau'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn a phramiau. Am fwy o wybodaeth gweler: [www.ceredigioncoastpath.org.uk](http://www.ceredigioncoastpath.org.uk)


## Teithio

Mae'n hawdd cyrraedd yn ôl i'ch man cychwyn. Cewch yr wybodaeth ddiweddaraf am deithio gan: [traveline-cymru.info](http://traveline-cymru.info) Ar gyfer teithiau heb y car gweler: [www.darganfodceredigion.cymru](http://www.darganfodceredigion.cymru)

## Llwybr Arfordir Cymru

Os mai mynd am dro sy'n mynd â'ch bryd...

Cofiwch fod Llwybr Arfordir Ceredigion yn arwain at Llwybr Arfordir Sir Benfro yn Aberteifi, lle mae 186 yn rhagor o filltiroedd yn aros amdanoch chi. Tua'r gogledd mae Llwybr Arfordir Cymru'n mynd trwy Fiosffer Dyfi o'r Borth i Aberdyfi. **Beth am lawrlwytho Ap Arfordir Cymru yn rhad ac a ddim.**



# Llwybr Arfordir Ceredigion Y Sialens

## Cwestiynau ac Atebion

- 1 Cerflun efydd o ba anifail sydd ar lan yr afon yn Aberteifi?
- 2 Beth yw'r cerflun pren sydd yn y maes parcio ger y traeth yn Aberporth?
- 3 Beth yw enw'r stac graig sydd ar draeth Llangrannog?
- 4 Pwy sydd wedi gwneud Y Cei Newydd yn adnabyddus yn y byd llenyddol Saesneg?
- 5 Ar gyfer beth oedd yr adeilad bach pinc ger y clwb cychod yn Aberaeron yn cael ei ddefnyddio ers llawer dydd?
- 6 Adfeilion pa fath o adeilad sydd i'w gweld ar y Llwybr rhwng Llanon a Llanrhystud?
- 7 Beth sydd wedi ei guddio yn y tywod rhwng Y Borth ac Ynyslas?

Llenwch y ffurflen a'i hanfon yn ôl gydag atebion i'r saith cwestiwn i'r cyfeiriad isod. Cofiwch ysgrifennu mor glir ac y medrwrch oherwydd bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio ar gyfer eich tystysgrif.

Enw .....

Cyfeiriad .....

..... Côd Post .....

Ffôn ..... Ebst .....

Dyddiad dechrau ..... Dyddiad cwblhau .....

Ychwanegwch fi at y rhestr bostio. Dychweler i: Tystysgrif Llwybr Arfordir Ceredigion, Twristiaeth Ceredigion, Aberystwyth SY23 2AG

Am fwy o fanylion cysylltwch â Chanolfannau Croeso Ceredigion neu ymwelwch â [www.darganfodceredigion.cymru](http://www.darganfodceredigion.cymru)

[www.facebook.com/discoverceredigion](https://www.facebook.com/discoverceredigion)  
[twitter.com/visitceredigion](https://twitter.com/visitceredigion)